

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2021



AROS YNG NGHRIST

Abiding in Christ / Week of Prayer for Christian Unity 2021

18-25 Ionawr

www.ctbi.org.uk/weekofprayer





Ffenestri lliw yng Nghapel Cymuned Grandchamp

Mae ein lles ysbrydol yr un mor bwysig â'n lles corfforol. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, bu her ddifrifol i'r ddeubeth: mae'r pandemig COVID-19 wedi peri i ni fod yn ofalus ynglŷn â'n hiechyd, gan gymryd camau diogelwch megis golchi'n dwylo, gwisgo mygydau a chadw pellter cymdeithasol. Bu rhai ohonom yn wael a cholodd eraill ohonom rywun agos i ni. Amharwyd hefyd ar fywyd gwaith llawer ohonom a chadwyd teuluoedd ar wahân, yn aml ar gost bersonol ddifrifol. Efallai i hyn oll ein gwneud yn fwy pryderus yngylch ein hiechyd ac yn fwy ymwybodol pa mor fregus ydym. Ar yr un pryd bu adeiladau eglwysig ar gau gydag addoli'n digwydd ar-lein. Prin fu'r cyfleoedd i gydaddoli ac i weddio gyda'n gilydd. Mae'n ddigon posibl ein bod yn teimlo ein bod wedi'n hynysu oddi wrth Dduw yn ogystal ag oddi wrth ein cymydog.

Mae'r cyfnod clo yr ydym wedi byw drwyddo wedi achosi i ni gymryd cam yn ôl i feddwl eilwaith am ein blaenoriaethau ac am y bobl a'r pethau sy'n bwysig i ni, sydd yn gwneud ein bywydau'n gyflawn. Mae'r cyfnodau hir heb weld ein teuluoedd estynedig â'n cyfeillion a'r diffyg cyfle i rannu pryd neu gyd-ddathlu pen-blwydd neu briodas yn enghreifftiau o hynny.

Yn achos ein bywyd ysbrydol, beth yw'r peth pwysicaf ar gyfer ein lles? Wrth i fywyd eglwysig ddod i ben i raddau helaeth, am y tro cyntaf i'r rhan fwyaf o bobl, beth mae'n ei olygu i fod yn rhan o'r Un Eglwys, o Gorff Crist, pan mai ond ar sgrin y gliniadur rydym yn gweld ein chwiorydd â'n brodyr?

WELCOME



Coloured windows in the chapel at the Community of Grandchamp

Our spiritual well-being is as important as our physical well-being. In the past year both of these have been seriously challenged: the COVID-19 pandemic has caused us to be careful about our own health, taking precautions such as washing hands and wearing facemasks and maintaining social distance. Some of us have been ill or have lost someone close to us. Meanwhile the working lives of many have been disrupted and families kept apart, often at huge personal cost. Perhaps it has made us all more anxious about our health and more aware of our vulnerability. At the same time church buildings have been closed and worship has been taking place online. Opportunities to worship and pray together have been seriously curtailed. We may well be feeling a sense of isolation from God as well as our neighbour.


The period of lockdown that we have lived through has caused us to take a step back to think again about our priorities and the things and people that we value, that make our lives whole. The long periods of absence from extended family and friends, and the inability to share a meal together or celebrate a birthday or a wedding, are examples of this.

When it comes to our spiritual life, what is it that is most important for our well-being? As Church life was to a large extent paused for the first time for most people, what does it mean to be part of the one Church, the Body of Christ when all we see of our sisters and brothers are on the screen of a laptop?

Pan fu i Gyngor Eglwysi'r Byd a Chyngor y Pab er Hyrwyddo Undod Cristnogol wahodd Chwiorydd Cymuned Grandchamp yn y Swistir i lunio'r deunydd ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn 2021, ni fyddent wedi gallu rhagweld y pandemig a'i effeithiau. Eto mae Chwiorydd Grandchamp wedi cynnig i ni rywbeth unigryw a gwerthfawr, sef cyfle i brofi dull o weddö sydd ar yr un pryd yn hen iawn ac eto mor addas ar gyfer ein cyfnod ninnau. Mae rhythmâu hynafol gweddi, a ganfyddir mewn llawer o urddau crefyddol a'u traddodiadau, yn ein dysgu ein bod, pan fyddwn yn gweddio, yn gwneud hynny nid yn unig ar ein pen ein hunain neu gyda'r rhai sydd yn y fan a'r lle gyda ni ond gyda'r Eglwys gyfan, Corff Crist, gydag aelodau'r teulu Cristnogol mewn lleoedd eraill a chyfnodau gwahanol.

Gallai'r patrwm gweddi hwn, gyda'i strwythurau traddodiadol, ei emynau a'i salmau ac, efallai'n bwysicaf oll, ei ysbeidiau tawel, yn wir fod yn rhodd bwysig oddi wrth Eglwys yr hen fyd i'r Eglwys heddiw wrth iddi ymgodymu â heintiau a chyfnodau clo ac yn ehangach gyda rhai o'r heriau dwys sy'n wynebu'r byd, yn fwyaf penodol newid hinsawdd, hilciaeth a thlodi. Mae'r traddodiad hwn o weddi ac ysbrydolrwydd yn ein gwahodd, er gwaethaf y pethau sydd yn ein brifo ac yn ein gwahanu, i rannu gweddi a thawelwch â'n gilydd. Heb os, dyna rodd hynod werthfawr yn y dyddiau helbulus hyn. Dewch gyda ni yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni a chamu i fan lle mae cymdeithas a bendith. Yma cewch 'fod' fel yr ydych a phrofi cynhaliaeth gweddi a gwybod mai Duw, yng Nghrist a thrwy'r Ysbryd Glân, sy'n ein cynnal ac yn cyd-deithio â ni. Bob amser.


Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon



When the World Council of Churches and the Pontifical Council for Christian Unity invited the sisters of the Community of Grandchamp in Switzerland to produce the material for the Week of Prayer for Christian Unity for 2021 they could not have foreseen the pandemic and its impact. Yet the Sisters of Grandchamp have offered us something uniquely precious: an opportunity to engage with a form of prayer that is both very ancient and yet at the same time so apposite for our times. The ancient rhythm of prayer found in many religious orders and their traditions teach us that when we pray, we pray not just on our own or with those who share the same physical space, but with the whole Church, the Body of Christ, of Christians in other places and in different times.

This rhythm of prayer, with its traditional forms of structure, hymns and psalms and perhaps most importantly, silence, might well be an important gift from the ancient Church to the Church of today struggling with pandemics and lockdowns and more widely with some of the serious challenges that our world faces, most particularly climate change, racism and poverty. This tradition of prayer and spirituality, despite the things that hurt and separate us, invites us into shared prayer and silence together. Surely a most precious gift in troubled times. Come with us this Week of Prayer for Christian Unity and enter into a place of community and blessing. Simply “be” in this place and be carried by the prayer and the reality that it is God, in Christ and through the Holy Spirit, who carries us and accompanies us. Always.

Bob Fyffe, General Secretary, Churches Together in Britain and Ireland





Paratowyd y deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn 2021 gan Gymuned Fynachaidd Grandchamp yn y Swistir. Mae'r thema a ddewiswyd, "Arhoswch yn fy nghariad i a byddwch yn dwyn llawer o ffrwyth", yn seiliedig ar Ioan 15:1-17 ac mae'n cyfleu galwad Cymuned Grandchamp i weddio ac i geisio cymod ac undod yn yr Eglwys a'r teulu dynol.

Gosodwyd sylfeini Cymuned Grandchamp yn Ewrop y 1930au, pan oedd grŵp o wragedd o'r traddodiad Diwygiedig am ailddarganfod pwysigrwydd bod yn dawel a gwrandro ar Air Duw. Heddiw mae'r gymuned yn cynnwys hanner cant o chwiorydd o wahanol genedlaethau, traddodiadau eglwysig, gwledydd a chyfandiroedd. Mae'r chwiorydd yn eu holl amrywiaeth yn ddameg fyw o'r hyn y dylai cymundeb ei olygu. Maent yn parhau'n ffyddlon i fywyd o weddio, byw mewn cymuned a chroesawu gwesteion. Mae'r chwiorydd yn rhannu braint eu bywyd mynachaidd gydag ymwelwyr a gwirfoddolwyr sy'n dod i Grandchamp i encilio, i geisio tawelwch a iachâd neu i chwilio am ystyr.

Wrth lunior'd deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn 2021, mae'r chwiorydd yn gwahodd eglwysi ledled y byd i brofi eu traddodiad o weddi a thawelwch sydd wedi'i wreiddio yn nhraddodiadau hynafol yr Eglwys Gyffredinol.

Meddai Jesu wrth ei ddisgyblion, "Arhoswch yn fy nghariad i" (Ioan 15:9). Mae yntau'n aros yng nghariad y Tad (Ioan 15:10) ac nid yw'n dymuno dim llai na rhannu'r cariad hwnnw â ni: "Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad" (Ioan

INTRODUCTION TO THIS YEAR'S THEME



The Week of Prayer for Christian Unity in 2021 has been prepared by the Monastic Community of Grandchamp in Switzerland. The theme that was chosen, “Abide in my love and you shall bear much fruit”, is based on John 15:1-17 and expresses Grandchamp Community’s vocation to prayer, reconciliation and unity in the Church and the human family.

The Grandchamp Community has its origins in Europe in the 1930s, when a group of women of the Reformed tradition sought to rediscover the importance of silence and listening to the Word of God. Today the community has fifty sisters, all women from different generations, Church traditions, countries and continents. In their diversity the sisters are a living parable of communion. They remain faithful to a life of prayer, life in community and the welcoming of guests. The sisters share the grace of their monastic life with visitors and volunteers who go to Grandchamp for a time of retreat, silence, healing or in search of meaning.

In producing the material for the Week of Prayer for Christian Unity for 2021, the sisters are inviting churches across the world to enter into their tradition of prayer and silence that is rooted in the ancient traditions of the Church catholic.

Jesus said to the disciples, “abide in my love” (Jn 15:9). He abides in the love of the Father (Jn 15:10) and desires nothing other than to share this love with us: “I have called you friends, because I have made known to you everything that I have heard from my Father” (Jn 15:15b).

15:15b). A ninnau wedi'n himpio ar y winwydden, sef Iesu ei hun, daw'r Tad yn winllannwr i ni, gan ein tocio a pheri i ni dyfu. Dyna ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd mewn gweddi. Y Tad yw canol union ein bywydau, ac ef sy'n unioni ein bywydau. Mae'n ein tocio a'n gwneud yn gyflawn, a bydd bodau dynol cyflawn yn gogoneddu'r Tad.

Agwedd fewnol yw aros yng Nghrist, sy'n gwreiddio ynom dros amser. Mae'n mynnu digon o le i dyfu. Gall ein hymdrehu am angenrheidiau bywyd ei goddiweddyd ac mae ymyrraeth sŵn, prysurdeb a heriau bywyd yn ei bygwth.

Rydym yn byw ar adeg sydd ar yr un pryd yn ofidus ac yn rhyfeddol, cyfnod sy'n beryglus yn aml, wrth i ni wynebu her heintiau, rhyfeloedd, traïs, tlodi, hiliaeth a newid hinsawdd. Eto fel Cristnogion sy'n ceisio cymod, cyflawnder a heddwch, rydym hefyd yn adnabod gwerth cyflawn y bywyd ysbrydol, ac rydym yn ysgwyddo cyfrifoldeb anferthol. Rhaid i ni sylweddoli hynny ac uno a chynorthwyo'n gilydd i greu grymoedd llonyddwch, llochesau tangnafedd, canolfannau bywiol lle mae tawelwch pobl yn galw ar air creadigol Duw. Mae'n fater o fywyd a marwolaeth.


Er ein bod ninnau, fel Cristnogion, yn aros yng nghariad Crist, rydym hefyd yn byw mewn creadigaeth sy'n griddfan wrth ddisgwyd ei rhyddhau (gweler Rhufeiniaid 8). Yn y byd, rydym yn dystio i ddrygau dioddefaint ac ymrafael. Drwy gydsefyll â'r rhai sy'n dioddef rydym yn caniatáu i gariad Crist lifo drwom. Mae dirgelwch y Pasg yn dwyn ffrwyth ynom ninnau pan fyddwn yn cynnig cariad i'n brodyr a'n chwiorydd ac yn meithrin gobaith yn y byd.

Mae ysbrydolrwydd a chydsefyll yn annatod gysylltiedig. Wrth aros yng Nghrist, derbyniwn y nerth â'r doethineb i weithredu yn erbyn strwythurau anghyflawnder a gormes, i gydnabod ein gilydd yn gyflawn fel brodyr a chwiorydd mewn un ddynoliaeth, ac i'n galluogi i greu ffordd newydd o fyw, gan barchu'r greadigaeth gyfan a byw mewn cymundeb â hi.

Mae'r crynodeb o'u rheol bywyd y bydd Chwiorydd Grandchamp yn ei adrodd gyda'i gilydd bob bore yn dechrau â'r geiriau "gweiddiwrch y bydd Duw'n teyrnasu a gweithiwrch tuag at hynny". Nid darnau ar wahân o'n bodolaeth yw gweddi a bywyd beunyddiol – maent i fod yn un. Mae popeth a brofwn i fod i ddod yn gydgyfarfod â Duw.

Grafted into the vine, which is Jesus himself, the Father becomes our vinedresser who prunes us to make us grow. This describes what happens in prayer. The Father is the centre of our lives, who centres our lives. He prunes us and makes us whole, and whole human beings give glory to the Father.

Abiding in Christ is an inner attitude that takes root in us over time. It demands space to grow. It can be overtaken by the struggle for the necessities of life and it is threatened by the distractions, noise, activity and the challenges of life.



We live in a time that is both troubling and magnificent, an often dangerous time where we are challenged by pandemics, wars, violence, poverty, racism and climate change. Yet as Christians seeking reconciliation, justice and peace, we also know the full value of a spiritual life, have an immense responsibility and must realize it, unite and help each other create forces of calmness, refuges of peace, vital centres where the silence of people calls on the creative word of God. It is a question of life and death.

Though we, as Christians, abide in the love of Christ, we also live in a creation that groans as it waits to be set free (cf. Romans 8). In the world we witness the evils of suffering and conflict. Through solidarity with those who suffer we allow the love of Christ to flow through us. The paschal mystery bears fruit in us when we offer love to our brothers and sisters and nurture hope in the world.

Spirituality and solidarity are inseparably linked. Abiding in Christ, we receive the strength and wisdom to act against structures of injustice and oppression, to fully recognize ourselves as brothers and sisters in humanity, and to be creators of a new way of living, with respect for and communion with all of creation.

The summary of the rule of life that the sisters of Grandchamp recite together each morning begins with the words “pray and work that God may reign”. Prayer and everyday life are not two separate realities but are meant to be united. All that we experience is meant to become an encounter with God.

DIWRNOD 1

*“Nid chwi a’m dewisodd i,
ond myfi a’ch dewisodd chwi”*
(Ioan 15:16a)

Genesis 12:1-4
Ioan 1:35-51

Galwad Abraham
Galw’r disgylion cyntaf

MYFYRDOD

Mae'r daith yn cychwyn gydag ymgyfarfyddiad rhwng bod dynol â Duw, rhwng y creadur a'r Creawdwr, rhwng byd amser a thragwyddoldeb.

Clywodd Abraham yr alwad:
“Dos... i'r wlad a ddangosaf i ti”.
Fel Abraham, fe'n gelwir ninnau i adael yr hyn sy'n gyfarwydd ac i fynd i'r lle mae Duw wedi ei baratoi yn nyfnderoedd ein calonnau. Ar y ffordd, rydym yn dod yn fwyfwy tebyg i ni ein hunain, y bobl roedd Duw am i ni fod o'r cychwyn cyntaf.
A thrwy ddilyn yr alwad arnom, deuwn yn fendith i'n teuluoedd, i'n cymdogion ac i'r byd.

Mae cariad Duw yn ein ceisio. Daeth Duw yn fod dynol yn Iesu, yn yr hwn y gwelwn drem Duw. Yn ein bywydau ninnau, fel yn Efengyl Ioan, clywir galwad Duw mewn

gwahanol ffyrdd. Wedi'n cyffwrdd gan ei gariad, cychwynnwn ar y daith. Yn ei bresenoldeb, dilynwn lwybr trawsnewidiad – dechrau disglair i berthynas gariadus sy'n cael ei hadnewyddu'n barhaus.

“Un diwrnod, fe wnaethoch ddeall, heb i chi fod yn ymwybodol o hynny, bod ‘ie’ eisoes wedi’i gerfio’n ddwfn o’ch mewn. Ac felly fe wnaethoch y dewis i gamu ymlaen gan ddilyn camre Crist....

Yn dawel ym mhresenoldeb Crist, fe'i clywsoch yn dweud, ‘Tyrd, dilyn fi; rhoddaf i ti rywle lle caiff dy galon orffwysys.”

[The Sources of Taizé (2000 t.52)]
Cyfieithwyd, fel yn achos pob dyfyniad o ddeunyddiau Taizé.

WEDI'N GALW GAN DDUW

GWEDDI

Iesu Grist,

rwyt yn ein ceisio ni, rwyt am
gynnig i ni dy gyfeillgarwch
a'n harwain at fywyd sy'n dod yn fwy
cyflawn beunydd.

Rho i ni'r hyder i ateb dy alwad
fel y cawn ein trawsnewid
a dod yn dystion i'th ofal tyner
dros y byd.

CWESTIYNAU

- Ydych chi erioed wedi teimlo bod Duw yn eich galw chi, neu rywun rydych yn ei (h)adnabod, i gychwyn ar daith newydd mewn bywyd – un ai i symud yn gorfforol i rywle newydd neu i 'newid cyfeiriad' mewn rhyw ffordd arall? Sut wnaethoch chi ymateb?
- Pa newidiadau allai eich eglwys neu eich grŵp o eglwysi eu gwneud i alluogi pobl Dduw i gerdded yn fwy ffyddlon y llwybr mae Duw wedi'i osod ar eich cyfer neu i ddirnad arweiniad Duw yn fwy eglur?
- Beth yw rhai o hanesion aelodau 'newydd' o'ch cymuned, y rhai sydd wedi dod o ardaloedd cyfagos a'r rhai sydd wedi croesi cyfandiroedd i gyrraedd yno?

EWCH A GWNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Dysgwch am bynciau o bwys ac ymgyrchoedd ledled y byd yn ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches a gweithredwch arnynt.

Lleol: Cyfrannwch at unrhyw groeso a gynigir yn lleol i bobl na fu ganddynt ddewis ond teithio'n bell i ganfod diogelwch mewn lle dieithr iddynt ar draws y byd.

Personol: Treuliwch amser yn ystyried yr hyn sy'n ddieithr i chi mewn traddodiad Cristnogol arall ac a allai eich cynorthwyo i feithrin gwell cyd-ddealltwriaeth ac undod.

DAY 1

“You did not choose me but I chose you”
(John 15:16a)

Genesis 12:1-4

The call of Abraham

John 1:35-51

The call of the first disciples

MEDITATION

The start of the journey is an encounter between a human being and God, between the created and the Creator, between time and eternity.

Abraham heard the call: “Go to the land I will show you”. Like Abraham we are called to leave that which is familiar and go to the place that God has prepared in the depths of our hearts. Along the way, we become more and more ourselves, the people God has wanted us to be from the beginning. And by following the call that is addressed to us, we become a blessing for our loved ones, our neighbours, and the world.

The love of God seeks us. God became human in Jesus, in whom we encounter the gaze of God. In

our lives, as in the Gospel of John, God’s call is heard in different ways. Touched by his love, we set out. In this encounter, we walk a path of transformation - the bright beginning of a relationship of love that is always started anew.

“One day you understood that, without your being aware of it, a yes had already been inscribed in your innermost depths. And so you chose to go forward in the footsteps of Christ....

In silence in the presence of Christ, you heard him say, ‘Come, follow me; I will give you a place to rest your heart.’”

[The Sources of Taizé (2000) p. 52]

CALLED BY GOD



PRAYER

Jesus Christ,
you seek us, you wish to offer us
your friendship
and lead us to a life that is ever more
complete.

Grant us the confidence to answer
your call
so that we may be transformed
and become witnesses of your
tenderness for the world.

QUESTIONS

- Have you ever been aware that God was asking you or someone you know to begin a new journey in life – whether literally moving to somewhere else, or ‘changing direction’ in some other way? How did you respond?
- What changes could your church or group of churches make to empower God’s people to walk more faithfully the path God has set for you, or to discern God’s guidance more clearly?
- What are some of the stories of the ‘new’ members of your community, whether they have crossed a county boundary or journeyed across continents to get there?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: Get informed about and take action on global refugee and asylum issues and campaigns.

Local: Participate in any hospitality being offered locally to those who have had no choice but to go on a long journey to find safety in an unfamiliar place across the world.

Personal: Spend time exploring what is unfamiliar to you in another Christian tradition and which might help lead you to greater understanding and unity.

DIWRNOD 2

“Arhoswch yn offi, a minnau ynoch chwi.”

(Ioan 15:4a)

Effesiaid 3:14-21	Bydded i Grist breswylio yn ein calonnau
Luc 2:41-52	Cadwodd Mair y cyfan yn ddiogel yn ei chalon

MYFYRDOD

Mae'r ymgyfarfyddiad â Iesu'n esgor ar ddyhead i aros gydag ef ac ynddo ef: adeg pryd bydd ffrwyth yn aeddfebu.

Gan ei fod yn gwbl ddynol, tyfodd ac aeddfedodd Iesu fel y gwnawn ninnau. Roedd yn byw bywyd syml, wedi'i wreiddio yn arferion ei ffydd Iddewig. Yn y bywyd cuddiedig hwn yn Nasareth, lle, yn ôl pob golwg, ni ddigwyddodd dim anarferol, roedd presenoldeb y Tad yn ei faethu.

Myfyriai Mair ar weithredoedd Duw yn ei bywyd hithau a bywyd ei mab. Trysorai'r pethau hyn yn ei chalon. Felly, o gam i gam, fe gofleidiodd ddirgelwch Iesu.

Mae arnom ninnau hefyd angen cyfnod hir o aeddfebu, oes gyfan yn

wir, er mwyn plymio dyfnderoedd cariad Crist, i adael iddo ef breswylio ynom ninnau a ninnau ynddo yntau.

Heb i ni ddeall sut, mae'r Ysbryd yn peri i Grist drigo yn ein calonnau. A thrwy weddi, drwy wrando ar y Gair, wrth rannu ag eraill ac wrth i ni roi'r hyn rydym wedi ei ddeall ar waith, yr atgyfnerthir ein hanfod mewnol.

“Gadawn i Grist ddisgyn i ddifynderoedd ein bod... Bydd yn treiddio i wahanol rannau o'n meddyliau a'n calonnau, bydd yn cyffwrdd a'n cnawd hyd ein hunan eithaf, fel y byddwn ninnau hefyd ryw ddydd yn profi dyfnderoedd trugaredd.”

[The Sources of Taizé (2000) t.134]

AEDDFEDU'N FEWNOL



GWEDDI

Ysbryd Glân,
bydded i ni dderbyn presenoldeb
Crist yn ein calonnau,
a'i drysori fel cyfrinach cariad.
Nertha ein gweddi,
goleua ein deall wrth i ni ddarllen yr
Ysgrythur,
gweithreda drwom,
fel y gall ffrwythau dy ddoniau
dyfu'n amyneddgar ynom.

CWESTIYNAU

- Ychydig iawn mae'r Beibl yn ei ddweud wrthym am fywyd Iesu fel llanc ac fel oedolyn ifanc, pryd yn ôl pob golwg y bu iddo fyw fywyd cyffredin yn Nasareth. Sut ydych chi'n ymwybodol o bresenoldeb Duw gyda chi ym mhethau cyffredin fywyd?
- Yn eich eglwys neu eich grŵp o eglwysi, sut ydych chi'n meithrin eich plant a'ch pobl ifanc i gydgerdded â Duw yn eu bywydau beunyddiol, a sut allech chi wneud hynny'n well?
- Beth mae bod â 'phresenoldeb' gyda'ch gilydd yn y gymuned yn ei olygu yn achos yr eglwysi yn eich ardal chi?

EWCH A GWNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Fel pobl sy'n arddel ffydd, ystyriwch sut y gallwch gydweithio tuag at y diwrnod hwnnw pan all pawb fyw fywyd dynol llawn a chyfoethog.

Lleol: Ystyriwch sut allai'r eglwysi yn eich ardal chi fod yn fannau mwy croesawgar i blant.

Personol: Diolchwrch am y plant rydych yn eu hadnabod a gweddiwch drostynt.

DAY 2

“Abide in me as I abide in you”
(John 15:4a)

Ephesians 3:14-21 May Christ dwell in our hearts
Luke 2:41-52 Mary treasured all these things

MEDITATION

The encounter with Jesus gives rise to the desire to stay with him and to abide in him: a time in which fruit matures.

Being fully human, like us Jesus grew and matured. He lived a simple life, rooted in the practices of his Jewish faith. In this hidden life in Nazareth, where apparently nothing extraordinary happened, the presence of the Father nourished him.

Mary contemplated the actions of God in her life and in that of her son. She treasured all these things in her heart. Thus, little by little, she embraced the mystery of Jesus.

We too need a long period of maturation, an entire lifetime, in

order to plumb the depths of Christ's love, to let him abide in us and for us to abide in him.

Without our knowing how, the Spirit makes Christ dwell in our hearts. And it is through prayer, by listening to the word, in sharing with others, by putting into practice what we have understood, that the inner being is strengthened.

“Letting Christ descend into the depths of our being ... He will penetrate the regions of the mind and the heart, he will reach our flesh unto our innermost being, so that we too will one day experience the depths of mercy.”

[The Sources of Taizé (2000) p. 134]

MATURING INTERNALLY



PRAYER

Holy Spirit,

May we receive in our hearts the presence of Christ,
and cherish it as a secret of love.
Nourish our prayer,
enlighten our reading of Scripture,
act through us,
so that the fruits of your gifts can patiently grow in us.

QUESTIONS

- The Bible tells us very little about Jesus' youth and early adulthood, when he seems to have lived an ordinary life in Nazareth. How are you conscious of God's presence with you in the everyday things of life?
- In your church or group of churches how do you nurture your children and young people to walk with God in their everyday lives, and how could you do this better?
- What does the churches having a 'presence' together in the community look like in your area?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: As people of faith think about how you can work together for the day when all can know a full and abundant human life.

Local: Consider how the churches in your area can be more child friendly spaces.

Personal: Give thanks and pray for the children you know.

DIWRNOD 3

“Carwch eich gilydd fel y cerais i chwi”
(Ioan 15:12b)

Colosiaid 3:12-17

Gwisgwch amdanoch
dynerwch calon

Ioan 13:1-15; 34-35

Carwch eich gilydd

MYFYRDOD

Ar y noson cyn ei farw, penliniodd Iesu i olchi traed ei ddisgyblion. Gwyddai mor anodd oedd cyd-fyw ac mor bwysig oedd maddau a gwasanaethu eraill. “Os na chaf dy olchi di,” meddai wrth Bedr, “nid oes lle iti gyda mi.”

Derbyniodd Pedr Iesu wrth ei draed; cafodd ei olchi a'i gyffwrdd gan wyleidd-dra a thynerwch Crist. Yn ddiweddarach byddai'n dilyn esiampl Iesu ac yn gwasanaethu cymdeithas y ffyddloniaid yn yr Eglwys Fore.

Dymuna Iesu weld bywyd a chariad yn llifo drwom fel y gwna'r sug drwy'r winwydden, er mwyn i gymunedau Cristnogol ddod yn un corff. Ond heddiw, fel yn y gorffennol, nid yw'n hawdd cyd-fyw. Rydym yn aml yn gorfod wynebu ein cyfyngiadau ein hunain. Weithiau byddwn yn methu â charu'r rhai

sy'n agos atom mewn cymuned, plwyf neu deulu. Ar adegau, bydd y berthynas rhyngom ag eraill yn dymchwel yn llwyr.

Yng Nghrist fe'n gwahoddir i wisgo amdanom dynerwch calon, gan ddechrau o'r newydd dro ar ôl tro. Mae sylweddoli bod Duw yn ein caru yn ein hysgogi i groesawu ein gilydd, gyda'n cryfderau a'n gwendidau. Dyna pryd bydd Crist yn ein plith.

“Heb feddu ar fawr ddim, a wyt ti'n greawdwr cymod yn y cymundeb cariadus hwnnw, sef Corff Crist, ei Eglwys? Wedi'n cydysgogi at ymlaen, llawenhawn! Nid wyt bellach yn unig, ym mhöpeth rwyt yn cerdded ymlaen yng nghwmni dy frodyr a'th chwiorydd. Gyda hwy, fe'u elwir i fyw dameg cymuned.”

[The Sources of Taizé (2000) t.48-49]

FFURFIO UN CORFF

GWEDDI

Dduw ein Tad,
rwyt yn datgelu dy gariad drwy Grist
a thrwy ein brodyr a'n chwiorydd.
Agor ein calonnau fel y gallwn
groesawu ein gilydd,
gyda'n gwahaniaethau, a byw
mewn maddeuant.
Caniatâ i ni allu byw yn unedig
mewn un corff,
fel y gwelwn mai dy rodd di yw
pob unigolyn.
Bydded i ni oll gyda'n gilydd
adlewyrchu'r Crist byw.

CWESTIYNAU

- Allwch chi feddwl am rywun yn eich bywyd y byddech yn gallu dweud ei fod/bod yn "gwisgo tynerwch calon"? A allwch chi gofio adeg pan fu i chi dderbyn trugaredd?
- Ym mha ffordd mae angen i'ch cymuned eglwysig fod yn fwy trugarog tuag at aelodau ac ymwelwyr?
- Beth fyddai bod yn fwy trugarog o fewn eich cymuned yn ei olygu i eglwysi eich ardal? Ble mae angen trugaredd fwyaf yn y byd heddiw?

EWCH A GNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Beth allech chi ei wneud mewn ymateb i gri'r byd am drugaredd?

Lleol: Ystyriwch gydweithio fel eglwysi a chyda'r gymuned ehangach i greu baner neu gwilt sy'n darlunio'n pethau sy'n eich cysylltu ac yn eich plethu ynghyd.

Personol: Ystyriwch y dillad sydd yn eich wardrob a'r bywydau a'r dwylo sydd wedi cyffwrdd â hwy. A wnaed y dillad hynny am gyflog teg a than amodau gwaith derbynol?

DAY 3

“Love one another as I have loved you”

(John 15:12b)

- | | |
|---------------------|---------------------------------|
| Colossians 3:12-17 | Clothe yourself with compassion |
| John 13:1-15; 34-35 | Love one another |

MEDITATION

On the eve of his death, Jesus knelt to wash the feet of his disciples. He knew the difficulty of living together and the importance of forgiveness and mutual service. “Unless I wash you,” he said to Peter, “you have no share with me.”

Peter received Jesus at his feet; he was washed and was touched by the humility and gentleness of Christ. Later he would follow Jesus’ example and serve the fellowship of the faithful in the early church.

Jesus wishes that life and love circulate through us as the sap through the vine, so that Christian communities be one body. But today as in the past, it is not easy to live together. We are often faced with our own limitations. At times we fail to love those who are close to us in a

community, parish or family. There are times when our relationships break down completely.

In Christ we are invited to be clothed in compassion, through countless new beginnings. The recognition that we are loved by God moves us to welcome each other with our strengths and weaknesses. It is then that Christ is in our midst.

“With almost nothing, are you a creator of reconciliation in that communion of love, which is the Body of Christ, his Church? Sustained by a shared momentum, rejoice! You are no longer alone, in all things you are advancing together with your brothers and sisters. With them, you are called to live the parable of community.”

[The Sources of Taizé (2000) pp. 48-49]

FORMING ONE BODY

PRAYER

God our Father,
you reveal to us your love
through Christ
and through our brothers and sisters.
Open our hearts so that we can
welcome each other
with our differences and live
in forgiveness.
Grant us to live united in one body,
so that the gift that is each person
comes to light.
May all of us together be a reflection
of the living Christ.

QUESTIONS

- Can you think of a person in your life who you would identify as being “clothed in compassion”? Can you recall a time when you have been the recipient of compassion?
- How does your church community need to be more compassionate with members and visitors?
- What would it look like for the churches in your area to be more compassionate within your community? Where is compassion most needed in the world today?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: What action can we take in response to the compassion needed in the world?

Local: Consider making a banner or quilt together as churches and the wider community to demonstrate the things that thread and weave you together.

Personal: Consider the clothing in your wardrobe and the lives and hands that have touched them. Have these clothes been made with fair pay and good working conditions?

Mae'r addoliad eleni ar batrwm bywyd gweddi Cymuned Grandchamp, sy'n glynú'n agos wrth y traddodiad Benedictaidd. Yn y traddodiad hwnnw, cyfunir tri o'r gwasanaethau gweddi mynachaidd – a elwir weithiau'n 'wylnosau' (yn cael eu cynnal yn draddodiadol liw nos) – yn un gwasanaeth hwyrol. Yn yr un modd, mae ein gwasanaeth ninnau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn seiliedig ar dair adran, y 'gwylnosau', sy'n dilyn patrwm a ddefnyddir gan Gymuned Grandchamp.

Mae pob gwylnos yn dilyn yr un patrwm: darlleniad o'r Ysgrythur; ymateb ar gân; egwyl o dawelwch; ac ymbiliau. Mae pob gwylnos yn cynnwys hefyd weithred sy'n dilyn ei thema a cheir manylion y rheini isod. Diwedda pob gwylnos gyda chanu *Goleuni ein Duw* (*Lumière de Dieu*), a gyfansoddwyd gan aelod o Gymuned Grandchamp. Gellir canfod y gerddoriaeth ar gyfer y gân yn yr adnoddau ychwanegol ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Fodd bynnag, gellir, os dymunir, ddefnyddio dewisiadau addas eraill, er enghraifft, corganau cyfarwydd o Gymuned Taizé.

Mae'r wylnos gyntaf yn canolbwytio ar undod yr unigolyn cyflawn a'n haros yng Nghrist. Gwahoddir cyfranogwyr i fod yn dawel am bum munud. Ailadroddir y seibiannau hynny drwy gydol y gwasanaeth.

Mae'r ail wylnos yn mynegi'r dymuniad i ailddarganfod undod gweladwy Cristnogion. Wedi'n hangori yng nghariad Crist, fe drown at ein cymdogion a rhannu arwydd tangnafedd a'n gilydd.

Mae'r drydedd wylnos yn ein gwahodd i ystyried undod yr holl bobloedd a'r greadigaeth gyfan. Mae'r weithred yn ystod yr wylnos hon wedi'i hysbrydoli gan ddarn a ysgrifennwyd gan Dorotheus o Gaza. Saif nifer o bobl o gwmpas cylch, ac yna symud tuag at y canol. Po agosaf y byddwn yn symud at Dduw – y canol – po agosaf y byddwn yn dod at ein gilydd.

Mae yna amrywiaeth o ffyrdd y gellir trefnu'r weithred hon yn dibynnau ar y safle a thraddodiadau'r rhai sy'n cymryd rhan. Gallai'r canlynol gynnig arweiniad:

- Bydd angen i bawb yn y gynulleidfa fod â channwyll heb ei goleuo.

The worship this year closely follows the prayer life of the Community of Grandchamp, which follows the Benedictine tradition. In this tradition three of the monastic prayer services – sometimes called ‘vigils’ (traditionally said during the night) – are combined into one evening service. In the same way, our service for the Week of Prayer for Christian Unity is shaped by three sections, called ‘vigils’, which follow a pattern used by the community of Grandchamp.

Each vigil follows the same pattern: readings from scripture; a sung response; a time of silence; and intercessions. Each vigil also has an action reflecting its theme; these are outlined below. Each ends with the singing of *Light of God* (*Lumière de Dieu*), composed by a member of the community of Grandchamp. The music for this can be found in the additional resources on the CTBI website, however, if preferred, suitable alternatives can be used, for example familiar chants from the Taizé community.

The first vigil is centred on the unity of the whole person and our abiding in Christ. Participants are invited to keep five minutes of silence. These moments are repeated throughout the celebration.

The second vigil expresses the desire to rediscover the visible unity of Christians. Anchored in the love of Christ, we turn to our neighbours and exchange with each other a sign of his peace.

The third vigil opens us up to the unity of all peoples and all creation. The action in it is inspired by a text from Dorotheus of Gaza. Several people are positioned around a circle, and move towards the centre. The closer we move to God - the centre - the closer we draw to each other.

There is a variety of ways in which this action may be choreographed depending on the space being used, and the traditions of those involved. The following may serve as a guide:

- Each person in the congregation will need to have an unlit candle.

Continued on page 51

Dyddiadau

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n wyl symbolaidd o safbwyt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

Trefn y Gwasanaeth

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y daflen a'i llungopio, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac y mae croeso i chi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

Wal Undod Cristnogol

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion eich digwyddiadau a ffotograffau ohonynt ynghyd âch gweddïau âch negeseuon o undod at y 'wal' undod Cristnogol ar www.weekofprayer.org drwy eu rhoi ar Twitter gan ddefnyddio hashnod #wpcuwall. Bydd eich trydariadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

Cydnabyddiaeth am ffotograffau

Dymunwn ddiolch i Gymuned Grandchamp am ganiatâd i ddefnyddio eu ffotograffau (www.grandchamp.org).

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2021

ADDOLIAD ECIWMENAI

Arhoswch yn fy nghariad i a byddwch yn dwyn llawer o ffrwyth
(gweler Ioan 15:5-9)

ECUMENICAL CELEBRATION

Abide in my love and you shall bear much fruit
(cf. Jn 15:5-9)



Ffenestri lliw yn y Capel yng Nghymuned Grandchamp
Coloured windows in the chapel at the Community of Grandchamp

⑩ Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Gwahoddiad i weddio

Emyn wrth Ymgynnnull

Emyn sy'n galw ar yr Ysbryd Glân (i'w ddewis yn lleol)

Gair o groeso

Arweinydd Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw a chymundeb yr Ysbryd Glân a fo gyda chwi yn wastad!

Cynulleidfa **A chyda thithau.**

Darllenyydd 1 *Frodyr a chwiorydd yng Nghrist, thema'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni, a ddewiswyd gan Chwiorydd Cymuned Grandchamp yn y Swistir, yw: "Arhoswch yn fy nghariad i, a byddwch yn dwyn llawer o ffrwyth".*

Darllenyydd 2 Dymuniad mawr Duw, a fynegir gan Iesu, yw y byddwn yn dod ato ac yn aros ynddo ef. Mae'n disgwyl yn ddiflino amdanom, gan obeithio y byddwn, wedi ein huno ag ef mewn cariad, yn dwyn ffrwyth a fydd yn dod â bywyd i bawb. Mae perygl y byddwn yn ymateb i'r gwahaniaethau rhyngom drwy encilio, gan sylwi ond ar yr hyn sy'n ein gwahanu. Yn hytrach, gwrandoawn ar y ffordd mae Crist yn ein galw i aros yn ei gariad, ac felly dwyn llawer o ffrwyth.

Darllenyydd 1 Yn y tair ennyd o weddi sy'n dilyn, byddwn yn cofio galwad Crist ac yn troi at ei gariad, yn troi at yr un sy'n ganolbwyt i'n bywydau. Oherwydd yn ein perthynas agos â Duw y mae'r llwybr tuag at undod yn dechrau. Mae aros yng nghariad Duw yn cryfhau ynom y dyhead am geisio undod a chymod ag eraill.

Invitation to prayer

Entrance Hymn

A hymn invoking the Holy Spirit (to be chosen locally)

Words of welcome

Leader May the grace of the Lord Jesus Christ, the love of God
 and the communion of the Holy Spirit be with you all.

Congregation **And also with you.**

Reader 1 *Brothers and sisters in Christ, this year the theme of the Week of Prayer for Christian Unity, chosen by the sisters of the Community of Grandchamp in Switzerland, is: "Abide in my love and you shall bear much fruit".*

Reader 2 It is the great desire of God, expressed by Jesus, that we might come to him and abide in him. He waits for us tirelessly, hoping that, united to him in love, we will bear fruit that will bring life to all. Faced with our differences, we risk withdrawing into ourselves and seeing only that which separates us. But let us listen to how Christ calls us to abide in his love, and so bear much fruit.

Reader 1 In the three moments of prayer that follow, we remember the call of Christ, we turn to his love, to him who is the centre of our life. For the path of unity begins in our intimate relationship with God. Abiding in God's love strengthens the desire to seek unity and reconciliation with others.

Mae Duw'n agor ein calonnaau i dderbyn y rhai sy'n wahanol i ni. Ffrwyth pwysig yw hwn, rhoedd i iacháu'r rhaniadau oddi mewn i ni, rhngom ni ac yn y byd.

Arweinydd

Gweddiwn ar yr Arglwydd mewn tangnefedd:
Arglwydd, ti yw'r garddwr sy'n gofalu amdanom mewn cariad.
Fe'n gelwi i weld pryderthwch pob cangen yn un
â'r winwydden,
harddwch pob unigolyn.
Ac eto, yn rhy aml mae'r hyn sy'n wahanol mewn pobl eraill yn
codi ofn arnom.
Rydym yn encilio.
Rydym yn cefnu ar ein hymddiried ynot ti.

Mae gelyniaeth yn tyfu rhngom.
Tyrd a chyfeiria ein calonnaau tuag atat tithau unwaith eto.
Gad i ni fyw ar dy faddeuant di
fel y gallwn fod gyda'n gilydd a mawrygu dy enw.


Litani moliant

Cynulleidfa **Ti sydd yn ein galw i fod yn foliant ar y ddaear:
mawl fo i ti!**

Darllenyydd 1 Canwn fawl i ti drwy'r holl fydd ac ymhllith
 yr holl bobloedd,

Darllenyydd 2 Canwn fawl i ti drwy'r holl greadigaeth ac ymhllith
 yr holl greaduriaid.

Cynulleidfa **Ti sydd yn ein galw i fod yn foliant ar y ddaear:
mawl fo i ti!**



God opens us up to those who are different from us. This is an important fruit, a gift of healing for the divisions within us, between us, and in the world.

- Leader In peace let us pray to the Lord:
Lord, you are the vinedresser who cares for us with love.
You call on us to see the beauty of each branch united
 to the vine,
the beauty of each person.
And yet, too often the differences in others make us afraid.
We withdraw into ourselves.
Our trust in you is forsaken.
- Enmity develops between us.
Come and direct our hearts toward you once again.
Grant us to live from your forgiveness
so that we may be together and praise your name.


Litany of praise

- Congregation **You who call us to be praise in the midst of the earth:
glory to you!**
- Reader 1 We sing your praise in the midst of the world and among
 all peoples,
- Reader 2 We sing your praise in the midst of creation and among
 all creatures.
- Congregation **You who call us to be praise in the midst of the earth:
glory to you!**

- Darlenydd 1 Canwn fawl i ti ymysg dioddefaint a dagrau,
Darlenydd 2 Canwn fawl i ti ymysg addewidion a gorchestion.
- Cynulleidfa **Ti sydd yn ein galw i fod yn foliant ar y ddaear:
mawl fo i ti!**
- Darlenydd 1 Canwn fawl i ti mewn mannau lle mae anghydfod a
chamddealltwriaeth;
Darlenydd 2 Canwn fawl i ti yn y mannau lle mae cydgyfarfod a chymod.
- Cynulleidfa **Ti sydd yn ein galw i fod yn foliant ar y ddaear:
mawl fo i ti!**
- Darlenydd 1 Canwn fawl i ti yng nghanol rhwygiadau a rhaniadau;
Darlenydd 2 Canwn fawl i ti yng nghanol bywyd a marwolaeth,
geni nef newydd a daear newydd.
- Cynulleidfa **Ti sydd yn ein galw i fod yn foliant ar y ddaear:
mawl fo i ti!**

Yr Wylnos Gyntaf | Aros yng Nghrist: Undod y person cyfan

- Salm:** 103
Darleniad: Ioan 15:1-17
Ymateb: Ubi caritas
Ennyd o dawelwch: (oddeutu un munud)

- 
- Reader 1 We sing your praise among suffering and tears,
Reader 2 We sing your praise among promises and achievements.
- Congregation **You who call us to be praise in the midst of the earth:
glory to you!**
- Reader 1 We sing your praise in the places of conflict and
 misunderstanding;
- Reader 2 We sing your praise in the places of encounter
 and reconciliation.
- Congregation **You who call us to be praise in the midst of the earth:
glory to you!**
- Reader 1 We sing your praise in the midst of rifts and divisions,
Reader 2 We sing your praise in the midst of life and death,
 the birth of a new heaven and a new earth.
- Congregation **You who call us to be praise in the midst of the earth:
glory to you!**

First Vigil | **Abiding in Christ:** **The unity of the whole person**

- Psalm:** 103
Reading: Jn 15:1-17
Response: Ubi caritas
Short silence: (approximately 1 minute)

Ymbiliau

- Darlenydd Dduw cariad, drwy Grist fe ddywedaist wrthym: “Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi.” Rwyt yn ein ceisio, ac yn ein gwahodd i dderbyn dy gyfeillgarwch ac i aros ynddo. Dysga ni i ymateb mewn ffورد ddyfnach i'r gwahoddiad hwnnw ac i dyfu mewn bywyd sy'n dod beunydd yn fwy cyflawn.
- Cynulleidfa **Llawenydd calon lân sydd yn Nuw.**
- Darlenydd Dduw bywyd, fe'n gelwaist i fod yn foliant ar y ddaear ac i groesawu ein gilydd fel rhoddion o'th ras. Megis yr wyt tithau'n edrych yn gariadlon ar bob un ohonom, agor ein calonnau i dderbyn ein gilydd fel yr ydym.
- Cynulleidfa **Llawenydd calon lân sydd yn Nuw.**
- Darlenydd Dduw sy'n cynnull ynghyd, rwyt yn ein plethu gyda'n gilydd yn un winwydden yn dy Fab Iesu. Boed i'th Ysbryd cariadus aros gyda ni mewn cyfarfodydd eglwysig a chymunedol lleol ac mewn cynulliadau eciwmenaidd. Caniatâ i ni allu cyd-ddathlu dy bresenoldeb mewn llawenydd.
- Cynulleidfa **Llawenydd calon lân sydd yn Nuw.**
- Darlenydd Dduw'r un winllan, fe'n gelwi i aros yn dy gariad yn y cyfan a wnawn ac a ddywedwn. Wedi'n cyffwrdd gan dy ddaioni, caniatâ i ni adlewyrchu'r cariad hwnnw yn ein cartrefi a'n gweithleoedd. Boed i ni bontio rhwng ymrysonau a goresgyn tensiynau.
- Cynulleidfa **Llawenydd calon lân sydd yn Nuw.**

Intercessions

Reader God of love, through Christ you said to us: "You did not choose me but I chose you." You seek us, you invite us to receive your friendship and abide in it. Teach us to respond more deeply to this invitation, and grow in a life that is ever more complete.

Congregation **The joy of our heart is in God.**

Reader God of life, you call us to be praise in the midst of the world and to welcome one another as a gift of your grace. May your loving gaze, which rests upon each person, open us to receive each other just as we are.

Congregation **The joy of our heart is in God.**

Reader God you who gather, you knit us together as one vine in your Son Jesus. May your loving Spirit abide in us at local church and community meetings and ecumenical gatherings. Grant that together we celebrate you with joy.

Congregation **The joy of our heart is in God.**

Reader God of the one vineyard, you call us to abide in your love in all we do and say. Touched by your goodness, grant us to be a reflection of that love in our homes and workplaces. May we bridge rivalries and overcome tensions.

Congregation **The joy of our heart is in God.**

Gweithred: Ennyd o dawelwch

Darlenydd Yn aml iawn, byddwn yn meddw am weddi fel rhywbeth a wnawn, fel gweithred ar ein rhan ninnau. Am gyfnod byr, fe'n gwahoddir i brofi tawelwch mewnol ac i ymneilltuo oddi wrth holl sŵn a gofalon ein bywydau a'n meddyliau. Yn y tawelwch hwn, Duw fydd yn gweithredu. Fe'n gelwir ninnau ond i aros ac ymlonyddu yng nghariad Duw.

Tawelwch (oddeutu pum munud)

Emyn Lumière de Dieu (Goleuni ein Duw)

Yr Ail Wylnos | Undod gweladwy Cristnogion

Salm: 85

Darleniad: 1 Corinthiaid 1:10-13a

Ymateb: Un Arglwydd sydd, un ffydd ac un bedydd

Ennyd o dawelwch: (oddeutu un munud)

Ymbiliau

Darlenydd Ysbryd Glân, rwyt yn creu ac yn ail-greu'r Eglwys ym mhob lle. Tyrd a sibrwd yn ein calonnau'r hyn a weddiodd Iesu ar ei Dad ar drothwy ei ddioddefaint: "ar iddynt oll fod yn un... er mwyn i'r byd gredu".

Cynulleidfa **Kyrie eleison (Arglwydd trugarha)**

Action: A time of silence

Reader Very often we think of prayer as something we do, an activity of our own. In this short time we are invited to an interior silence, and to turn aside from all the noise and concerns of our lives and thoughts. In this silence the action belongs to God. We are simply called to abide and rest in God's love.

Silence (approximately 5 minutes)

Hymn Lumière de Dieu (Light of God)

Second Vigil | The visible unity of Christians

Psalm: 85

Reading: 1 Cor 1:10-13a

Response: There is One Lord, One Faith, One Baptism

Short silence: (approximately 1 minute)

Intercessions

Reader Holy Spirit, you create and re-create the Church in all places. Come and whisper in our hearts the prayer which Jesus addressed to his Father on the eve of his passion: "that they may all be one... so that the world may believe".

Congregation **Kyrie eleison (Lord have mercy)**






- Darlenydd Arglwydd Iesu, Dywysog Tangnefedd, cynna dân dy gariad ynom fel y bydd pob amheuaeth, dirmyg a chamddeall yn peidio yn yr Eglwys. Bydded i'r muriau sy'n ein gwahanu gwympo.
- Cynulleidfa **Kyrie eleison (Arglwydd trugarha)**
- Darlenydd Ysbryd Glân, Cysurwr pawb, agor ein calonnau i faddau a chymodi a thywys ni yn ôl o'n crwydradau.
- Cynulleidfa **Kyrie eleison (Arglwydd trugarha)**
- Darlenydd Arglwydd Iesu, yr un y mae dy galon yn dyner a gwylaidd, gwna ni'n dlodion yn yr ysbryd fel y gallwn groesawu syndod dy ras.
- Cynulleidfa **Kyrie eleison (Arglwydd trugarha)**
- Darlenydd Ysbryd Glân, nid wyt ti byth yn cefnu ar y dynion, y gwragedd a'r plant sy'n cael eu herlid oherwydd eu ffyddlondeb i'r Efengyl. Rho iddynt nerth a glewder a bydd yn gefn i'r rhai sy'n eu cynorthwyo.
- Cynulleidfa **Kyrie eleison (Arglwydd trugarha)**

Gweithred: Rhannu arwydd tangnefedd

Darlenydd Geilw'r Arglwydd ni i fod yn unedig yn ein plith ein gilydd. Mae'n rhoi i ni ei dangnefedd ac yn ein gwahodd i'w rannu. Gadewch i ni rannu â'n cymdogion arwydd o'i dangnefedd ef.

Mae pawb yn troi at y rhai sydd gerllaw iddynt ac yn rhannu arwydd tangnefedd, yn unol â'r arfer yn lleol.

Emyn: Lumière de Dieu (Goleuni ein Duw)

- 
- Reader Lord Jesus, Prince of Peace, light the fire of your love in us so that suspicions, contempt and misunderstanding cease in the Church. May the walls that separate us fall.
- Congregation **Kyrie eleison (Lord have mercy)**
- Reader Holy Spirit, Consoler of all, open our hearts to forgiveness and reconciliation and bring us back from our wanderings.
- Congregation **Kyrie eleison (Lord have mercy)**
- Reader Lord Jesus, gentle and humble of heart, give us poverty of spirit so that we may welcome the unexpectedness of your grace.
- Congregation **Kyrie eleison (Lord have mercy)**
- Reader Holy Spirit, you never abandon the men, women and children who are persecuted for their fidelity to the gospel. Give them strength and courage, and support those who help them.
- Congregation **Kyrie eleison (Lord have mercy)**

Action: **Sharing a Sign of Peace**

- Reader The Lord calls us to be united among ourselves. He gives us his peace and invites us to share it. Let us exchange a sign of his peace with our neighbours.

Everyone turns to those near them and offers a sign of peace, in keeping with their local context.

- Hymn** Lumière de Dieu (Light of God)

Y Drydedd Wylnos

Undod yr holl blobloedd â'r greadigaeth gyfan

Salm: 96

Darleniad: Datguddiad 7: 9-12

Ymateb: Tydi sydd uwchlaw pob dim

Pregeth, os dymunir

Ennyd o dawelwch: (oddeutu un munud)

Ymbiliau

Darlenydd Dduw bywyd, rwyt wedi creu pob bod dynol ar dy lun a'th ddelw dy hun. Canwn fawl i ti am rodd amrywiaeth mewn diwylliant, ffydd, traddodiad a chenedl. Rho i ni'r dewrder i wrthsefyll bob adeg anghyflawnwr ar sail hil, dosbarth, rhyw a chrefydd, ac ar ofn y rhai nad ydynt fel ninnau.

Cynulleidfa **Dduw pob hedd, cariad wyt, a thi yw'n gobaith ninnau!**

Darlenydd Dduw trugarog, dangosaist i ni yng Nghrist ein bod yn un ynot ti. Dysga ni i ddefnyddio'r rhodd honno yn y byd fel y gall dilynwyr pob crefydd ym mhob gwlad wrando ar ei gilydd a byw mewn tangnefedd.

Cynulleidfa **Dduw pob hedd, cariad wyt, a thi yw'n gobaith ninnau!**

Darlenydd O Iesu, daethost i'r byd a rhannu'n gyflawn yn ein dynoliaeth. Gwyddost mor galed yw bywyd i bobl sy'n dioddef mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Bydded i Ysbryd trugaredd ein cymell i rannu ein hamser, ein bywyd a'n heiddo â phawb sydd mewn angen.

Third Vigil | The unity of all peoples with all creation

Psalm: 96

Reading: Rev. 7: 9-12

Response: O you who are beyond all things

Optional homily

Short silence: (approximately 1 minute)

Intercessions

Reader God of life, you have created every human being in your image and likeness. We sing your praise for the gift of our many cultures, expressions of faith, traditions and ethnicities. Grant us the courage always to stand against injustice and hatred based on race, class, gender, religion, and fear of those not like ourselves.

Congregation **God of peace, God of love, in you is our hope!**

Reader Merciful God, you have shown us in Christ that we are one in you. Teach us to use this gift in the world so that believers of all faiths in every country may be able to listen to each other and live in peace.

Congregation **God of peace, God of love, in you is our hope!**

Reader O Jesus, you came into the world and shared fully in our humanity. You know the hardships of life for people who suffer in so many different ways. May the Spirit of compassion move us to share our time, life and goods with all those in need.

Cynulleidfa

Dduw pob hedd, cariad wyt, a thi yw'n gobaith ninnau!

Darlenydd

Ysbryd Glân, rwyd yn clywed llid dy greadigaeth glwyfedig a chri'r rhai sydd eisoes yn dioddef oherwydd newid hinsawdd. Arwain ni i ymddwyn mewn ffyrdd newydd. Bydded i ni ddysgu byw mewn cytgord fel rhan o'th greadigaeth.

Cynulleidfa

Dduw pob hedd, cariad wyt, a thi yw'n gobaith ninnau!

Gweithred: Symud tua'r canol... ac allan i'r byd

ysbrydolwyd gan destun o waith Dorotheus o Gaza

Darlenydd

Geilw Iesu ni i aros ynddo ef, fel canghennau'r wir winwydden. Fe'n geilw i ddwyn ffrwyth cariad iachusol a chymodlon Duw. Fe'n geilw i ddod yn agosach at Dduw ac at ein gilydd wrth i ni gynnig y cariad hwnnw i'r byd.

Dychmygwch fod darlun o gylch ar y llawr. Dychmygwch mai'r byd yw'r cylch hwnnw.

Mae'r bobl a ddewiswyd yn sefyll ac yn ffurio cylch o gwmpas cannwyll yn y canol.


Darlenydd

Ar ganol y byd mae Duw, yn yr hwn mae ein holl ddyheadau a'n hiraeth yn cydgyfarfod.

Mae'r bobl yn cerdded sawl cam tua'r canol.

Darlenydd

Wrth i ni symud yn agosach at Dduw, felly deuwn yn agosach at ein gilydd. A pho agosaf y deuwn at ein gilydd...



Congregation **God of peace, God of love, in you is our hope!**

Reader Holy Spirit, you hear the fury of your wounded creation and the cries of those already suffering from climate change. Guide us toward new behaviours. May we learn to live in harmony as part of your creation.

Congregation **God of peace, God of love, in you is our hope!**

Action: Moving to the centre... and out to the world

inspired by a text of Dorotheus of Gaza

Reader Jesus calls us to abide in him, as branches of the true vine. He calls us to bear the fruit of God's healing and reconciling love. He calls us to draw closer to God and to one another as we offer this love to the world.

Imagine a circle drawn on the ground. Imagine that this circle is the world.

The designated persons stand up and form a circle around a central candle.

Reader At the centre of the world is God, in whom all our desires and longings find their meeting place.

The persons take several steps toward the centre.

Reader As we move closer to God, so we draw closer to one another. And the closer we come to one another . . .

Mae'r bobl yn symud i'r canol gyda'i gilydd.

Darlenydd ... po agosaf y deuwn at Dduw.

Pan fydd y rhai sy'n cludo canhwyllau'n cyrraedd y canol, mae pob un yn goleuo'r gannwyll. Wrth iddynt sefyll gyda'i gilydd yn y canol mae pawb yn gweddio'n dawel.

Ennyd o dawelwch (*oddeutu un munud*)

Gweddi'r Arglywydd

Arweinydd Gan lefaru'r geiriau a ddysgodd Iesu i ni, cyd-weddiwn:


Cynulleidfa **Ein Tad...**

Emyn Lumière de Dieu (Goleuni ein Duw)

Yn ystod canu'r emyn, dychwela'r rhai sy'n cludo canhwyllau a rhannu'r goleuni a dderbyniasant â'r gynulleidfa.

Arweinydd Mae ysbrydolrwydd a chydsafiad yn hanfodol gysylltiedig.
Mae gweddi a gweithredu i ddigwydd ar y cyd. Pan fyddwn yn aros yng Nghrist, fe dderbyniwn Ysbryd dewrder a doethineb i weithredu yn erbyn anghyflawnader a gormes o bob math.
Dywedwn gyda'n gilydd:

Cynulleidfa **Gweddiwch a gweithiwch tuag at deyrnasiad Duw.**
Drwy gydol eich dydd
gadewch i Air Duw anadlu bywyd i mewn i'ch gwaith
a'ch gorffwys.
Ym mhopheth, byddwch yn dawel ynoch eich hunain
fel y byddwch yn preswylion yng Nghrist.



The persons move to the centre together.

Reader ...the closer we come to God

When the candle-bearers reach the centre they each light their candle. As they stand together at the centre all keep a time of prayer in silence.

Short Silence (*approximately 1 minute*)

The Lord's Prayer

Leader With the words that Jesus taught us, let us now pray together:

Congregation **Our Father...**

Hymn Lumière de Dieu (Light of God)

During the singing the candle-bearers return and share with the congregation the light that they have received.

Leader Spirituality and solidarity are inseparably linked. Prayer and action belong together. When we abide in Christ, we receive the Spirit of courage and wisdom to act against all injustice and oppression. We say together:

Congregation **Pray and work that God may reign.
Throughout your day
let the Word of God breathe life into work and rest.
Maintain inner silence in all things
so as to dwell in Christ.**

**Llanwer chwi ag ysbryd y Gwynfydau:
llawenydd, symlrwydd, trugaredd.**

Bydd Chwiorydd Cymuned Grandchamp yn adrodd y geiriau hyn yn feunyddiol.

Bendith


Arweinydd Byddwch yn un, er mwyn i'r byd gredu! Arhoswch yng nghariad Duw, ewch allan i'r byd, a dygwch ffrwyth y cariad hwnnw.

Cynulleidfa A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, ein llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth i ni arfer ein ffydd, nes ein bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen.

Emyn i gloi

(i'w ddewis yn lleol)

Daw'r dyfyniadau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, Hawlfraint © 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl. Cedwir pob hawl ledled y byd.



**Be filled with the spirit of the Beatitudes:
joy, simplicity, mercy.**

These words are recited daily by the Sisters of the Grandchamp Community.


Blessing

- Leader Be one, so that the world may believe! Abide in God's love, go into the world and bear the fruits of this love.
- Congregation **May the God of hope fill us with all joy and all peace in faith, so that we may abound in hope by the power of the Holy Spirit. In the name of the Father, the Son and the Holy Spirit. Amen.**

Final Hymn

(to be chosen locally)

Bible verses from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission.
All rights reserved.



Dates

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

Order of service

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

Christian unity wall

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity ‘wall’ at weekofprayer.org by posting to Twitter using the #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

Photo credits

Our thanks to the Community of Grandchamp for the use of their photos (www.grandchamp.org).

Parhad o dudalen 22

- Gallai'r trefnwyr fod am ystyried a fyddai'n bosibl i'r gynulleidfa eistedd mewn cylch gydag eliau o'r canol tuag allan i hwyluso gwneud y weithred hon.
- Gosodir cannwyll fawr wedi'i goleuo (er enghraifft, Cannwyll y Pasg a ddefnyddir mewn nifer o draddodiadau) yn uchel fel canolbwyt i'r cylch.
- Mae rhwng chwech ac wyth o bobl o draddodiadau Cristnogol gwahanol yn sefyll mewn cylch o gwmpas y gannwyll. Gellir darlunio'r cylch ar y llawr neu gall y gynulleidfa ei hun ffurfio cylch.
- Mae pob un o'r bobl hyn yn cludo cannwyll fechan heb ei goleuo gan ei dal yn uchel fel y gall pawb ei gweld.
- Yn ystod y darleniad sy'n digwydd ar yr un adeg â'r weithred mae pob unigolyn yn y cylch yn cerdded ar yr un cyflymder tua'r canol.
- Pan maent yn cyrraedd y canol, maent yn goleuo eu canhwyllau ac yn dychwelyd i blith y gynulleidfa. Yna goleuir canhwyllau pawb.
- Tra byddir yn goleuo canhwyllau aelodau'r gynulleidfa, cenir *Lumière de Dieu (Goleuni ein Duw)*.
- Mae pawb yn dal eu canhwyllau hyd at ddiweddyd y gwasanaeth. Mewn rhai lleoedd, lle mae hynny'n briodol ac yn ymarferol, gall y gynulleidfa adael yr addoldy a mynd allan i'r byd gan ddal y canhwyllau golau.

Gellir llefaru neu ganu'r litani ar y dechrau – os gellir gan ddau unigolyn gwahanol. Yn yr un modd, gellir llefaru neu ganu'r salmau, neu ganu emyn sy'n addas ar gyfer thema'r wylnos yn lle salm.

Gellir llefaru neu ganu'r ymbiliau, neu gellir defnyddio rhai eraill yn eu lle. Gellir ychwanegu amser ar gyfer gweddi rydd yn ystod yr ymbiliau.

Gellir canfod emynau a gwrando arnynt ar wefan Cymuned Grandchamp: www.grandchamp.org.

Gallwch hefyd wrando ar weddïau beunyddiol y Gymuned ar-lein yn: www.grandchamp.org/prier-avec-nous.

Continued from page 23

- Organisers may wish to consider whether it is possible for the congregation to be “in the round” with radial aisles to facilitate this action.
- A large, raised lit candle (for example the Easter candle in many traditions) is set as the central point of a circle.
- Six to eight people from different Christian traditions surround the candle in a circle that may be outlined on the ground, or shaped by the congregation’s sitting in the round.
- Each of these people carries a small unlit candle raised high so all can see.
- During the reading accompanying the action, each person in the circle takes steps at the same pace towards the centre.
- When they reach the centre they light their unlit candles and return to the congregation. Everyone’s candle is then lit.
- During the lighting of everyone’s candles, *Lumière de Dieu (Light of God)* is sung.
- Everyone holds their lighted candle through to the Dismissal. In some places, where it is appropriate and practicable, the congregations may process out of the place of worship into the wider world, with candles lit.

The litany at the beginning can be read or sung – if possible, by two different people. The psalms can also be read or sung, or replaced by a hymn related to the theme of the vigil.

The responses during the prayers of intercession can be read, sung or replaced by others. The intercessions can be prolonged by adding time for free prayer.

Hymns can be accessed and heard on the website of the Community of Grandchamp: www.grandchamp.org.

You can also listen to their common prayer online every day at:
www.grandchamp.org/prier-avec-nous.

DIWRNOD 4

“Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision... Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion”

(Ioan 15:15)

Rhufeiniaid 8:26-27 Y mae'r Ysbryd yn ein
cynorthwyo yn ein gwendid
Luc 11:1-4 Arglwydd, dysg i ni weddöi

MYFYRDOD

Mae Duw'n sychedu am berthynas
â ni. Mae'n chwilio amdanom fel y
bu'n chwilio am Adda, gan alw arno
yn yr ardd: "Ble'r wyt ti?"
(Genesis 3:9).

Yng Nghrist, daeth Duw i gyfarfod â
ni. Roedd Iesu'n byw mewn gweddi,
mewn undod clös â'i Dad, tra roedd
hefyd yn meithrin cyfeillgarwch â'i
ddisgyblion ac â phawb y byddai'n
eu cyfarfod. Fe'u cyflwynodd i'r
hyn oedd fwyaf gwerthfawr iddo:
y berthynas gariadus â'i Dad, sydd
yn Dad i ninnau hefyd. Canai Iesu
a'r disgyblion salmau gyda'i gilydd,
o'u gwreiddiau yng nghyfoeth y
traddodiad Iddewig. Adegau eraill,
ymneilltuai Iesu i weddöi ar ei ben
ei hun.

Gallwn weddöi ar ein pen ein
hunain neu ar y cyd ag eraill.

Gall gweddi fynegi rhyfeddod,
anniddigrwydd, yr angen am rywbeth
neu ddiolchgarwch – neu gall fod
yn dawelwch pur. Weithiau byddwn
yn dymuno gweddiö, ond yn teimlo
na allwn. Gall troi at Iesu a dweud
wrtho "dysga fi" agor y drws. Mae ein
dyhead ynddo'i hun eisoes yn weddi.

Gall dod at ein gilydd mewn grŵp
fod o gymorth i ni. Trwy emynau,
geiriau a thawelwch, crëir cymundeb.
Os gwediwn gyda Christnogion o
draddodiadau eraill, efallai cawn ein
synnu gan rwymyn y cyfeillgarwch
sy'n ein huno, a hynny'n dod o'r Un
sydd y tu hwnt i bob ymraniad. Gall
y ffurfiau fod yn wahanol, ond yr un
Ysbryd sy'n ein clymu ynghyd.

"Yn ein cyd-weddöi rheolaidd, mae
cariad Iesu'n ymfrydio o'n mewn, ni
wyddom sut. Nid yw gweddöi gyda'n

GWEDDIO GYDA'N GILYDD

gilydd yn golygu na ddylem weddöi
ar ein pen ein hunain. Mae'r naill
yn cynnal y llall. Neilltuwn amser
bob dydd i adnewyddu'n perthynas
bersonol â Iesu Grist."

[The Rule of Taizé in French and English, Y Gymdeithas er Hyrwyddo Gwybodaeth Gristnogol, Prydai Fawr t.19 a t.21]

GWEDDI

Arglywydd Iesu,
gweddi oedd dy fywyd
drwyddo draw,
cynghanedd berffaith â'r Tad.
Trwy'r Ysbryd, dysga ni i weddöi'n
unol â'th ewyllys cariadus.
Bydded i ffyddloniaid yr holl fyd uno
mewn ymbil a moliant,
a deled dy deyrnas mewn cariad.

CWESTIYNAU

- Bu Iesu fyw fel esiampl o'r hyn mae'n ei olygu i "fyw mewn gweddi". Os gweddi yw sail ein perthynas â Duw, faint o amser a sylw allech chi eu rhoi i'ch bywyd gweddi personol chi?
- Beth ydych chi wedi ei ddysgu o weddöi gyda Christnogion eraill? Beth allai Duw fod am ei ddysgu i chi drwy arferion a thraddodiadau pobl eraill?
- Pa angen penodol yn eich cymuned y gallwch chi ymrwymo i weddöi drosto yn ystod y flwyddyn sydd i ddod?

EWCH A GWNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Ymrwymwch i weddöi drwy Gylch Gweddi Eciwmenaidd Cyngor Eglwysi'r Byd eleni.

Lleol: Unwch ag eraill yn eich cymuned i gyd-weddio'r wythnos hon mewn cyfarfod go iawn neu ar-lein drwy Zoom neu raglen debyg, neu drwy ymrwymo i weddöi ar wahân ond ar yr un adeg.

Personol: Ystyriwch sut mae eich arferion mewn gweddi'n dylanwadu ar eich gweithredu yn y byd.

DAY 4

“I do not call you servants any longer... but I have called you friends”

(John 15:15)

- | | |
|----------------|-------------------------------------|
| Romans 8:26-27 | The Spirit helps us in our weakness |
| Luke 11:1-4 | Lord, teach us to pray |

MEDITATION

God thirsts for relationship with us. He searches for us as he searched for Adam, calling to him in the garden: “Where are you?” (Gen 3:9)

In Christ, God came to meet us. Jesus lived in prayer, intimately united to his Father, while creating friendships with his disciples and all those he met. He introduced them to that which was most precious to him: the relationship of love with his Father, who is our Father. Jesus and the disciples sang psalms together, rooted in the richness of their Jewish tradition. At other times, Jesus retired to pray alone.

Prayer can be solitary or shared with others. It can express wonder, complaint, intercession, thanksgiving

or simple silence. Sometimes the desire to pray is there, but one has the feeling of not being able to do so. Turning to Jesus and saying to him, “teach me”, can pave the way. Our desire itself is already prayer.

Getting together in a group offers us support. Through hymns, words and silence, communion is created. If we pray with Christians of other traditions, we may be surprised to feel united by a bond of friendship that comes from the One who is beyond all division. The forms may vary, but it is the same Spirit that brings us together.

“In the regularity of our common prayer, the love of Jesus springs up within us, we know not how.

PRAYING TOGETHER

Common prayer does not exempt us from personal prayer. One sustains the other. Let us take a time each day to renew our personal intimacy with Jesus Christ.”

[The Rule of Taizé in French and English, Society for Promoting Christian Knowledge, Great Britain pp. 19 & 21]

PRAYER

Lord Jesus,
your entire life was prayer,
perfect harmony with the Father.
Through your Spirit, teach us to pray
according to your will of love.
May the faithful of the whole world
unite in intercession and praise,
and may your kingdom of love come.

QUESTIONS

- Jesus lived as an example of what it means to “live in prayer”. If prayer is the foundation of our relationship with God how much time and attention could you give to your personal prayer life?
- What have you learned from praying with other Christians? What might God want you to learn from the practices and traditions of others?
- What specific need in your community can you commit to pray for over the coming year?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: Commit to praying through the WCC Ecumenical Prayer Cycle this year.

Local: Unite with others in your community to pray together this week, in person, online via Zoom or similar platform, or at a set time when you know others will be joining in prayer.

Personal: Consider how your prayer practices inform and influence your action in the world.

DIWRNOD 5

“Yr ydych chwi eisoes yn lân trwy'r gair...”

(Ioan 15:3)

Deuteronomium 30:11-20 Y mae Gair Duw yn agos iawn atat

Mathew 5:1-12
MYFYRDOD

Mae Gair Duw yn agos iawn atom. Mae'n fendith ac mae'n addo dedwyddwch. Os agorwn ein calonnau, bydd Duw yn siarad â ni ac yn trawsnewid yn amyneddggar yr hyn ynom sy'n marw. Mae'n symud ymaith yr hyn sy'n rhwystro twf bywyd gwirioneddol, yn union fel y bydd y gwinllannwr yn tocio'r winwydden.

Mae myfyrio'n rheolaidd ar destun o'r Beibl, yn unigol neu mewn grŵp, yn newid y ffordd yr edrychwn ar bethau. Bydd llawer o Gristnogion yn gweddi drwy'r Gwynfydau bob dydd. Mae'r Gwynfydau'n datgelu dedwyddwch sydd yng'hudd yn yr hyn sydd heb ei gyflawni, dedwyddwch sydd yr ochr draw i ddioddefaint: gwyn eu byd y rhai, dan gyffyrddiad yr Ysbryd, nad ydynt bellach yn atal eu dagrau ond yn gadael iddynt lifo ac felly'n cael eu cysuro. Wrth iddynt ddarganfad tarddle'r ffynnon sydd yng'hudd o'u

Gwyn eich byd

mewn, mae'r newyn am gyflawnder a'r syched am estyn allan at eraill i geisio heddwch i'r byd yn tyfu ynddynt.

Fe'n gelwir yn barhaus i adnewyddu'n hymrwymiad i fywyd, drwy ein meddyliau a'n gweithredoedd. Mae yna adegau pan ydym yn blasu'n barod, yma, heddiw, y fendith a brofwn yn gyflawn ar ddiwedd amser.

“Gwediwch a gweithiwch tuag at deyrnasiad Duw.

Drwy gydol eich dydd

gadewch i Air Duw anadlu bywyd i mewn i'ch gwaith a'ch gorffwys.

Ym mhopeth, byddwch yn dawel ynoch eich hunain

fel y byddwch yn preswylio yng Nghrist.

Llanwer chwi ag ysbryd y Gwynfydau: llawenydd, symlrwydd, trugaredd.”

[*Bydd Chwiorydd Cymuned Grandchamp yn adrodd y geiriau hyn yn feunyddiol.*]

GADAEL I'R GAIR EIN TRAWSNEWID



GWEDDI

Bendigedig wyt ti, Dduw ein Tad,
am rodd dy Air yn yr Ysgrythur
Sanctaidd.

Bendigedig wyt ti am ei rym
trawsffurfiol.

Cynorthwya ni i ddewis bywyd a
thywys ni drwy dy Ysbryd,
fel y gallwn brofi'r dedwyddwch
rwyt tithau mor awyddus
i'w rannu â ni.

CWESTIYNAU

- Beth mae "gadael i Dduw deyrnas" yn eich bywyd yn ei olygu i chi? A oes unrhyw beth y gallech ei newid neu ei addasu?
- Pe byddai i'ch eglwys(i) fyw y Gwynfydau bob dydd pa wahaniaeth fyddai hynny'n ei wneud i'r cymunedau mae'r eglwys(i) yn eu gwasanaethu?
- Beth mae'n ei olygu yn ein byd heddiw i fod dan fendith Duw?

EWCH A GWNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Dysgwch ragor am y fenter Cyflawn Air a threfnwch sesiwn a fydd yn cysylltu'r eglwysi yn eich ardal â chymuned rywle arall yn y byd.

Lleol: Pa un weithred gariadus a allai'r eglwysi yn eich ardal ei chyflawni gyda'i gilydd er mwyn bod yn fendith unol o fewn eich cymuned ehangach?

Personol: Darllenwch drwy'r Gwynfydau (Mathew 5: 3-11) yn araf. Pa un o'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y darn hwn o'r Ysgrythur y teimlwch y dylech chithau ei chyflawni heddiw?

DAY 5

“You have already been pruned by the word...”
(John 15:3)

Deuteronomy 30:11-20

The word of God is very close to you

Matthew 5:1-12

Blessed are you

MEDITATION

The Word of God is very close to us. It is a blessing and a promise of happiness. If we open our hearts, God speaks to us and patiently transforms that which is dying in us. He removes that which prevents the growth of real life, just as the vine grower prunes the vine.

Regularly meditating on a biblical text, alone or in a group, changes our outlook. Many Christians pray the Beatitudes every day. The Beatitudes reveal to us a happiness that is hidden in that which is unfulfilled, a happiness that lies beyond suffering: blessed are those who, touched by the Spirit, no longer hold back their tears but let them flow and thus receive consolation. As they discover the wellspring hidden within their inner landscape, the hunger for justice, and the thirst to

engage with others for a world of peace, grows in them.

We are constantly called to renew our commitment to life, through our thoughts and actions. There are times when we already taste, here and now, the blessing that will be fulfilled at the end of time.

“Pray and work that God may reign. Throughout your day

Let the Word of God breathe life into work and rest.

Maintain inner silence in all things so as to dwell in Christ.

Be filled with the spirit of the Beatitudes,
joy, simplicity, mercy.”

[*These words are recited daily by the Sisters of the Grandchamp Community*]

LETTING ONESELF BE TRANSFORMED BY THE WORD



PRAYER

Blessed are you, God our Father,
for the gift of your word in Holy
Scripture.

Blessed are you for its
transforming power.

Help us choose life and guide us by
your Spirit,

so that we can experience the
happiness which you want so
much to share with us.

QUESTIONS

- What does it mean to you that “God may reign” in your life? Is there anything you could change or adjust?
- If your church(es) were to live the “Beatitudes” each day what difference would this make to the communities they serve?
- What does it mean in our world today to be blessed by God?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: Find out more about the Just Scripture initiative and help organise a session connecting the churches in your area with a community across the world.

Local: What one act of kindness could the churches in your area take together to be a unified blessing in your wider community?

Personal: Read the Beatitudes through slowly (Matthew 5: 3-11). Which of the actions described in the passage are you encouraged to take today?

DIWRNOD 6

“Ewch allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy’n aros...”
(Ioan 15:16b)

Genesis 18:1-5

Abraham yn croesawu'r angylion
wrth dderw Mamre

Marc 6:30-44

Iesu'n tosturio wrth y tyrfaoedd

MYFYRDOD

Pan ganiatawn i Grist ein
trawsnewid, bydd ei gariad yn tyfu
ynom ac yn dwyn ffrwyth. Mae
croesawu eraill yn ffodd ymarferol o
rannu'r cariad sydd o'n mewn.

Drwy gydol ei oes, croesawai Iesu'r
rhai a gyfarfyddai. Gwrundai
arnynt a chaniatáu iddynt gyffwrdd
ag ef, heb fod ag ofn eu dioddefaint.

Yn yr hanes yn y Beibl am amlhau'r
torthau, mae Iesu'n teimlo trugaredd
wrth weld y dorf newynog. Gŵyr
bod angen maeth ar bob rhan o'r
bod dynol, ac mai ef yn unig a all
ddiwallu'r newyn am fara a'r syched
am fywyd fel ei gilydd. Ond nid yw
am wneud hynny heb ei ddisgyblion,
heb yr ychydig y gallant hwythau ei
roi iddo: pum torth a dau bysgodyn.

Hyd heddiw, mae'n ein gwahodd
i fod yn gydweithwyr iddo, gan
gynnig ei ofal diamod. Weithiau

bydd rhywbeth mor fach ag
edrychiad caredig, clust agored neu
ond ein presenoldeb yn ddigon i
wneud i rywun deimlo bod croeso
iddo neu iddi. Pan gynigiwn ein
galluoedd gwan i Iesu, bydd yn eu
defnyddio mewn ffyrdd a fydd yn
ein synnu.

Yna, byddwn yn profi'r hyn a
brofodd Abraham, oherwydd wrth
roi y byddwn yn derbyn, ac wrth
groesawu eraill, fe'n bendithir
ninnau'n helaeth.

“Crist ei hun fyddwn yn ei groesawu
mewn gwestai.” [The rule of Taizé in
French and English (2012) t.103]

“A fydd y bobl y byddwn yn eu
croesawu ddydd ar ôl dydd yn
canfod ynom ddynion a merched
y mae Crist, ein tangnafedd, yn
disgleirio drwom?”

[The Sources of Taizé (2000) t.60]

CROESAWU ERAILL

GWEDDI

Iesu Grist,
deisyfwn groesawu'n gyflawn y
brodyr a'r chwiorydd sydd
gyda ni.

Gwyddost pa mor aml rydym yn
teimlo na allwn wneud dim i
leddfu eu dioddefaint,
eto rwyt tithau bob amser yno
o'n blaenau
ac rwyt eisoes wedi eu derbyn yn
dy drugaredd.

Llefara wrthynt drwy ein geiriau
ninnau, ymgeledda hwy drwy ein
gweithredoedd,
a bydded i'th fendith orffwys ar
bawb ohonom.



CWESTIYNAU

- Pan ydych chi'n cyfarfod pobl newydd a ydynt yn gweld "disgleirdeb Crist" ynoch chi?
- Wrth i ni gyd-weddio am fwy o undod, ym mha ffordd ydym yn cynnig croeso Crist i Gristnogion eraill?
- Am beth mae pobl yn newynu yn eich cymuned chi?

EWCH A GWNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Treuliwch amser heddiw'n myfyrio ar eitemau newyddion o wahanol rannau o'r byd. Gweithredwch mewn ymateb i'r eitem sy'n ysgogi'r mwyaf o gydymdeimlad ynoch.

Lleol: Cyfrannwch mewn unrhyw ffordd a allwch i fanc bwyd, i gynllun tyfu bwyd neu i fenter prydau cymunedol yn eich ardal.

Personol: Myfyriwch yngylch pwy yw'r 'dieithrynn' i chi. Sut allech chi ymgysylltu a'r unigolyn neu'r unigolion hynny pan fyddwch yn dod i gysylltiad â hwy nesaf a sut allech chi gynnig croeso iddynt?

DAY 6

“Go and bear fruit, fruit that will last”

(John 15:16b)

Genesis 18:1-5

Abraham hosts the angels at the Oak of Mamre

Mark 6:30-44

Jesus' compassion for the crowds

MEDITATION

When we let ourselves be transformed by Christ, his love in us grows and bears fruit. Welcoming the other is a concrete way of sharing the love that is within us.

Throughout his life, Jesus welcomed those he met. He listened to them and let himself be touched by them without being afraid of their suffering.

In the gospel account of the multiplication of the loaves, Jesus is moved with compassion after seeing the hungry crowd. He knows that the entire human person must be nourished, and that he alone can truly satisfy the hunger for bread and the thirst for life. But he does not wish to do this without his disciples, without that little something they can give him: five loaves and two fish.

Even today he draws us to be co-workers in his unconditional care. Sometimes something as small as a kind look, an open ear, or our presence is enough to make a person feel welcome. When we offer our poor abilities to Jesus, he uses them in a surprising way.

We then experience what Abraham did, for it is by giving that we receive, and when we welcome others, we are blessed in abundance.

“It is Christ himself whom we receive in a guest.”

[The rule of Taizé in French and English (2012) p. 103]

“Will the people we welcome day after day find in us men and women radiant with Christ, our peace?”

[The Sources of Taizé (2000) p. 60]

WELCOMING OTHERS

PRAYER

Jesus Christ,

we desire to welcome fully the brothers and sisters who are with us.

You know how often we feel helpless in the face of their suffering,

yet you are always there ahead of us and you have already received them in your compassion.

Speak to them through our words, support them through our actions, and let your blessing rest on us all.



QUESTIONS

- When you meet new people do they find you “radiant with Christ”?
- As we pray together for greater unity how are we showing Christ’s welcome to other Christians?
- What are people hungry for in your community?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: Take time to engage with global news stories today. Take action in response to the story that most moves you with compassion.

Local: Contribute in any way that you can to a foodbank, food growing scheme or community meal initiative in your area.

Personal: Reflect on and identify who ‘the other’ is for you. How might you connect with and offer a welcome to them in your next encounter?

DIWRNOD 7

“*Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau*”
(Ioan 15:5a)

1 Corinthiaid 1:10-13; 3:21-23 A rannwyd Crist?


Ioan 17:20-23

Fel rydych chwithau
a minnau'n un

MYFYRDOD

Y noson cyn ei farw, gweddiodd Iesu am undod y rhai a roes y Tad iddo: “ar iddynt oll fod yn un... er mwyn i'r byd gredu”. Wedi ein huno ag ef, fel mae cangen yn un â'r winwydden, rydym yn rhannu'r un sug sy'n llifo drwom ac yn ein bywhau.

Mae pob traddodiad yn ceisio ein twyws tuag at galon ein ffydd: cymundeb â Duw, drwy Grist, yn yr Ysbryd. Po fwyaf y byddwn yn byw'r cymundeb hwnnw, po fwyaf fydd ein cyswllt â Christnogion eraill ac â'r greadigaeth gyfan. Mae Paul yn ein rhybuddio rhag coleddu agwedd a oedd eisoes wedi bygwth undod y Cristnogion cyntaf: blaenoriaethu ein traddodiad ein hunain er niwed i undod corff Crist. Wedyn bydd gwahaniaethau'n gwahanu'n hytrach nag yn cyfoethogi pawb. Roedd gweledigaeth Paul yn un eang iawn: “Mae pob peth yn eiddo i chwi... a



chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw” (1 Corinthiaid 3:22-23).

Mae ewyllys Crist yn ein rhwymo i ddilyn llwybr undod a chymod. Mae'n ein rhwymo hefyd i gyd-weddio ag yntau: “ar iddynt oll fod yn un... er mwyn i'r byd gredu” (Ioan 17:21).

“Peidiwch byth ag ildio i dderbyn gwarth gwahanu Cristnogion sydd mor barod i fynegi cariad tuag at gymydog, ac eto sy'n aros yn rhanedig. Gnewch undod corff Crist yn fater o'r pwys mwyaf i chi.”

[The Rule of Taizé in French and English (2012) t.13]

TYFU MEWN UNDOD



GWEDDI

Ysbryd Glân,
y Tân bywiol a'r anadl dyner, tyrd ac
aros gyda ni.

Adnewydd a ynom y dyhead
am undod

fel y gallwn fyw yn ymwybodol o'r
rhwymyn sy'n ein huno ynot ti.

Bydded i'r holl rai a wisgodd Grist
adeg eu Bedydd

uno a thystio gyda'i gilydd i'r gobaith
sy'n eu cynnal.

CWESTIYNAU

- Ydych chi wedi derbyn gwarth yr ymwahanu rhwng Cristnogion fel rhywbeth anochel?
- Pa ran o'ch traddodiad chi sy'n fywiol ac yn bywiocáu a beth allwch chi ei ddysgu oddi wrth yr hyn sy'n fywiol ac yn bywiocáu o fewn traddodiadau Cristnogol eraill?
- Pa effaith fyddai mwy o undod rhwng yr eglwysi'n ei gael ar y byd?

EWCH A GWNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Dysgwch ragor am y Gynghrair ACT a Caritas International a dathlwch y ffordd mae cyrff Cristnogol yn dod ynghyd i beri trawsnewid ledled y byd.

Lleol: Trefnwch drafodaeth ar-lein neu drwy gydgyfarfod ar thema undod, gyda chymorth hwyluswr, ar gyfer yr eglwysi yn eich ardal.

Personol: Ystyriwch ac ymrwymwch i gyflawni un weithred sy'n hybu undod.

DAY 7

“I am the vine, you are the branches”

(John 15:5a)

1 Corinthians 1:10-13; 3:21-23 Is Christ divided?

John 17:20-23 As you and I are one

MEDITATION

On the eve of his death, Jesus prayed for the unity of those the Father gave him: “that they may all be one … so that the world may believe”. Joined to him, as a branch is to the vine, we share the same sap that circulates among us and vitalizes us.

Each tradition seeks to lead us to the heart of our faith: communion with God, through Christ, in the Spirit. The more we live this communion, the more we are connected to other Christians and to all of humanity. Paul warns us against an attitude that had already threatened the unity of the first Christians: absolutizing one's own tradition to the detriment of the unity of the body of Christ. Differences then become divisive instead of mutually enriching. Paul had a very broad vision: “All are yours, and you are of Christ, and Christ is of God” (1 Cor 3:22-23).



Christ's will commits us to a path of unity and reconciliation. It also commits us to unite our prayer to his: “that they may all be one. . .so that the world may believe” (Jn 17:21).

“Never resign yourself to the scandal of the separation of Christians who so readily profess love for their neighbour, and yet remain divided. Make the unity of the body of Christ your passionate concern.”

[The Rule of Taizé in French and English (2012) p. 13]

GROWING IN UNITY



PRAYER

Holy Spirit,
vivifying fire and gentle breath, come
and abide in us.

Renew in us the passion for unity
so that we may live in awareness of
the bond that unites us in you.

May all who have put on Christ at
their Baptism
unite and bear witness together to
the hope that sustains them.

QUESTIONS

- Are you resigned to the scandal of separation of Christians?
- What part of your tradition is vital and life giving and what can you learn from what is vital and life giving within other Christian traditions?
- What could be the impact on the world of greater unity between the churches?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: Find out more about the ACT Alliance and Caritas International and celebrate the coming together of Christian organisations to bring transformation across the world.

Local: Organise an online or in person conversation with the assistance of a facilitator on the theme of unity for the churches in your area.

Personal: Consider and commit to one act of unity.

DIWRNOD 8

“Er mwyn i’m llawenydd i fod ynoch, ac i’ch llawenydd chwi fod yn gyflawn”

(Ioan 15:11)

Colosaid 1:15-20

Ynddy ef y mae pob peth yn cydsefyll

Marc 4:30-32

Cyn lleied â hedyn mwstard

MYFYRDOD

Mae’r emyn i Grist yn yr Epistol at y Colosaid yn ein gwahodd i ganu mawl i iachawdwriaeth Duw, iachawdwriaeth sy’n cwmpasu’r holl fydy sawd. Trwy’r Crist croeshoeliedig ac atgyfodedig, agorwyd llwybr tuag at gymod; mae dyfodol o fywyd a heddwch yn yr arfaeth ar gyfer y greadigaeth hefyd.

Gyda llygaid ffydd, gwelwn fod teyrnas Dduw yn wirionedd sydd yn agos iawn atom ond sydd eto’n fach iawn, bron yn anweledig, megis hedyn mwstard. Fodd bynnag, mae’n tyfu. Hyd yn oed yng nghanol trallod ein byd mae Ysbryd yr Un Atgyfodedig ar waith. Mae’n ein hannog i weithio’n ddiflino – gyda phawb o ewyllys da – i geisio cyflawnder a heddwch ac i sichau y daw’r ddaear unwaith eto’n gartref i’r holl greaduriaid.

Rydym yn rhannu yng ngwaith yr Ysbryd fel y gall y greadigaeth

yn ei holl gyflawnder barhau i foli Duw. Pan mae natur yn dioddef, pan gaiff bodau dynol eu gormesu, mae Ysbryd y Crist Atgyfodedig – ymhell o ganiatáu i ni wangaltonni – yn ein gwahodd i ddod yn rhan o’i waith iachusol.

Mae’r newydd-deb bywyd mae Crist yn ei gynnig, er mor guddiedig y gall hynny fod, yn dod â goleuni gobaith i lawer. Mae’n darddle cymod ar gyfer yr holl greadigaeth ac yn cynnwys llawenydd sy’n dod o’r tu allan i ni: “er mwyn i’m llawenydd i fod ynoch, ac i’ch llawenydd chwi fod yn gyflawn” (Ioan 15:11).

“Ydych chi am ddathlu’r newydd-deb bywyd mae Crist yn ei gynnig drwy’r Ysbryd Glân, ac am adael iddo fyw ynoch chi, yn ein plith ni, yn yr Eglwys, yn y byd a thrwy’r holl greadigaeth?”

[Yr ail addewid a wneir adeg gwneud proffes yng Nghymuned Grandchamp]

CYMODI Â'R GREADIGAETH GYFAN



GWEDDI

Driol Dduw, diolchwn i ti am i ti ein
creu a'n caru.

Diolchwn i ti am dy bresenoldeb
ynom ninnau ac yn y greadigaeth.

Bydded i ni ddysgu edrych ar y byd
fel rwyt tithau'n edrych arno,
gyda chariad.

Yng ngobaith y weledigaeth honno,
bydded i ni allu gweithio i
sicrhau byd

lle bydd cyflawnder a heddwch
yn ffynnu,
er gogoniant i'th enw.

CWESTIYNAU

- I ba raddau mae eich bywyd chi'n datgan iachawdwriaeth Duw? Pa argraff am Dduw fyddai eraill yn ei chael o'r ffordd rydych chi'n byw?
- Beth allai eich eglwys(i) a'ch cymuned ei wneud gyda'i gilydd i beri bod cyflawnder a heddwch yn ffynnu yn eich ardal?
- Sut mae eich eglwys neu eich grŵp o eglwysi'n gofalu am greadigaeth Duw? Pa newidiadau, bach neu fawr, allech chi eu gwneud a fyddai'n gwneud y gofal hwnnw'n fwy effeithiol?

EWCH A GWNEWCH

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Dysgwch am y gadwyn weddi dros gyflawnder hinsawdd ac ymunwch â hi.

Lleol: Ymgyrchwch gyda'ch gilydd dros gyflawnder hinsawdd yn y cyfnod yn arwain at y trafodaethau yngylch newid hinsawdd o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig yn Glasgow yn 2021.

Personol: Gweithredwch o blaid cyflawnder hinsawdd yn eich bywyd eich hun.

DAY 8

“So that my joy may be in you, and that your joy may be complete”

(John 15:11)

Colossians 1:15-20 In him all things hold together
Mark 4:30-32 As small as a mustard seed

MEDITATION

The hymn to Christ in the epistle to the Colossians invites us to sing the praise of God's salvation, which encompasses the entire universe. Through the crucified and risen Christ, a path of reconciliation has been opened up; creation too is destined for a future of life and peace.

With the eyes of faith, we see that the kingdom of God is a reality that is very close but still very small, hardly visible – like a mustard seed. However, it is growing. Even in the distress of our world the Spirit of the Risen One is at work. He encourages us to become involved – with all people of good will – in tirelessly seeking justice and peace, and ensuring the earth is once again a home for all creatures.

We participate in the work of the

Spirit so that creation in all its fullness may continue to praise God. When nature suffers, when human beings are crushed, the Spirit of the risen Christ – far from allowing us to lose heart – invites us to become part of his work of healing.

The newness of life that Christ brings, however hidden, is a light of hope for many. It is a wellspring of reconciliation for the whole of creation and contains a joy that comes from beyond ourselves: “so that my joy may be in you, and that your joy may be complete” (Jn 15:11).

“Do you wish to celebrate the newness of life that Christ gives through the Holy Spirit, and let it live in you, among us, in the church, in the world and in all of creation?”

[Second promise made during profession at the Community of Grandchamp]

RECONCILING WITH ALL OF CREATION



PRAYER

Thrice-holy God, we thank you for having created and loved us.

We thank you for your presence in us and in creation.

May we learn to look upon the world as you look upon it, with love.

In the hope of this vision, may we be able to work for a world where justice and peace flourish, for the glory of your name.

QUESTIONS

- How much does your life declare God's salvation? What view of God would others have from how you live?
- What could your church(es) and community do together to make justice and peace flourish in your locality?
- How does your church or group of churches care for God's creation? What changes, large or small, could you make which would make that care more effective?

GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Global: Find out about and join the prayer chain for climate justice.

Local: Campaign together for climate justice in the lead up to the United Nations climate change talks in Glasgow 2021.

Personal: Take action for climate justice in your own life.

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2021



ctbi.org.uk/weekofprayer
weekofprayer.org

Twitter: #wpcu2021
#wpcuwall

Cyhoeddwyd gan
Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon
Interchurch House
35 Lower Marsh
Llundain SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Ffôn: 0203 794 2288
Elusen gofrestredig rhif 1113299.
Cwmni cyfyngedig trwy warant,
rhif cofrestru 5661787.

Published by
Churches Together in Britain and Ireland
Interchurch House
35 Lower Marsh
London SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Tel: 0203 794 2288
Registered charity no. 1113299.
Company limited by guarantee,
registered no. 5661787.